

**Cronfa Cymorth Strategol Sefydliadol (ISSF3) Ymddiriedolaeth
Wellcome**

Cronfa Cymorth Strategol Sefydliadol

2il Argraffiad



Cylchlythyr ISSF Ionawr 2020

Dyfarniad ISSF newydd gwerth £7M

Mae Caerdydd wedi llwyddo i sicrhau £3.5 miliwn dros gyfnod o 5 mlynedd (2016-2021) gan Ymddiriedolaeth Wellcome, gyda Choleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd yn ychwanegu cyllid cyfatebol o £3.5 miliwn at y dyfarniad hwn. Nododd Ymddiriedolaeth Wellcome fod ein cais “yn cynnwys cyfres dda o weithgareddau newydd, hyblyg, wedi’u gwreiddio mewn fframwaith gyrfaoedd trwyadl sydd wedi’i gysylltu’n glir â strategaeth y brifysgol”.

Mae ein dyfarniad newydd yn canolbwyntio ar:



Galluogi ymchwilwyr i bontio i’r cam nesaf yn eu gyrfa, a bod hyn wedi’i ysgogi trwy gyflwyno gwyddoniaeth arloesol, newydd yn llwyddiannus ac ymgysylltu cyhoeddus.



Meithrin cyfleoedd a thimau ymchwil trawsddisgyblaethol newydd ar draws y Coleg, ac annog newid diwylliannol ar draws y llwybr gyrfaol academiaidd.



Cynorthwyo unigolion dawnus i ddod yn ôl i’r Brifysgol, boed o Sefydliadau eraill neu ar ôl seibiant gyrfa.



Darparu cyfleoedd i’n hymchwilwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa i wella’u sgiliau a rhoi iddynt hyfforddiant ymgysylltu a chyfleoedd rhwydweithio sy’n galluogi gyrfa.



Cyflwyno gweithgareddau ymgysylltu blaengar, sy’n cynnig profiadau o ansawdd uchel i’r sawl sy’n eu derbyn, yn ogystal ag i’r ymchwilydd.

Cyd-fynd â Strategaeth Ymchwil Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd ac Ymddiriedolaeth Wellcome

Mae dyfarniad ISSF newydd Ymddiriedolaeth Wellcome yn cyd-fynd â thair blaenoriaeth strategol y Coleg:



Tyfu ein rhagoriaeth ymchwil, gan ganolbwyntio ar fwy o gydlynid a graddfa uwch, ochr yn ochr â chyflwyno cydweithrediadau rhyngddisgyblaethol a Chanolfannau Rhagoriaeth;



Meithrin doniau ein hymchwilwyr, o ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i ysgolheigion uwch;



Gwella’r modd y caiff ein hymchwil ei throsi, gan arwain at fudd i gymdeithas, gydag effaith fyd-eang ar iechyd, yr amgylchedd a’r economi.

Nod Ymddiriedolaeth Wellcome yw cefnogi syniadau gwyb, o’r darganfod i’r effaith, cysylltu arbenigwyr o feysydd gwahanol, a helpu ymchwilwyr i ymgysylltu â’r cyhoedd yn effeithiol, ac i safon uchel.

Gwella pontio gyrfaol

Mae egwyddorion craidd ein dyfarniad ISSF yn cynnwys:

1. Hwyluso ymagwedd strategol at gynllunio gyrfa, dan arweiniad ymchwilydd
2. Darparu cyllid a mentora pwrpasol i ymchwilydd ar ddechrau eu gyrfa,
3. Gwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws rheolwyr, paneli, dyfarniadau a monitro,
4. Datblygu a chyflwyno Strategaeth Ymgysylltu newydd y Coleg, gydag ymgysylltu cyhoeddus yn ganolog iddi,
5. Hybu'r gefnogaeth ar gyfer prosiectau trawsddisgyblaethol a throsiadol, gan gynnwys cysylltiadau â Cholegau eraill.


Er enghraifft, mae ein Dyfarniadau Atgyfnerthu newydd yn helpu myfyrwyr rhagorol, sydd newydd gwblhau eu PhD, i baratoi ceisiadau ar gyfer Cymrodoriaeth Ôl-ddoethuriaeth Ymddiriedolaeth Wellcome Henry


Wellcome, Cymrodoriaeth Datblygu Sgiliau'r MRC neu Gymrodoriaeth Discovery y BBSRC.

Yn y cam nesaf mewn gyrfa, mewn ein Cynlluniau Cymrodoriaeth a'n cynlluniau hyblyg, Ailgysylltu â Gwyddoniaeth (sydd i'r rhai sy'n dychwelyd o seibiant gyrfa), yn cynnig cyflog, adnoddau a mentora pwrpasol, gan wella'r gallu i gystadlu ar gyfer Cymrodoriaeth Ymddiriedolaeth Wellcome Henry Dale a Chymrodoriaeth Dorothy Hodgkin y Gymdeithas Frenhinol, neu Grant Ymchwil Ymchwilydd Newydd yr MRC.

Mae ein Dyfarniad Rhyng-gysylltiedig yn canolbwyntio ar y cam nesaf mewn gyrfa, gan helpu timau ymchwil trawsddisgyblaethol i ddarparu tystiolaeth o ddichonoldeb partneriaeth ymchwil drawsbynciol newydd, a chefnogi ceisiadau am grantiau cydweithio (e.e. Dyfarniad Cydweithio Ymddiriedolaeth Wellcome, Grant Partneriaeth yr MRC, SLoLas y BBSRC) neu hyd yn oed statws Canolfan.

I alluogi hyn, mae ISSF3 yn seiliedig ar Fframwaith Camau Gyrfa, gyda gweithgareddau'n canolbwyntio ar bedwar maes:





Addasiadau i gynlluniau dyfarniadau

Dyfarniad Atgyfnerthu

Mae'r gyllideb wedi codi i 50 mil, sy'n cynnwys 5 mil wedi'i neilltuo'n benodol i nwyddau traul (i sicrhau bod pob ymgeisydd yn dechrau ar lefel ôl-ddoethurol gradd 6).

Dyfarniad Hadau i'w Hadu

Newidiwyd cymhwysedd i ymgeiswyr sydd o fewn 3 blynedd o ddechrau eu swydd darlithydd cyntaf ac anogir clinigwyr i ymgeisio hefyd yn sgîl newid y meini prawf.

Dyfarniad Trawsddisgyblaethol

Yn ystod ein pedwerydd cylch, cyflwynwyd gofyniad gorfodoli ymgeiswyr gydweithio â choleg arall ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dyfarniad Dechrau Trosiadol

Mae'r tîm Trosglwyddo Technoleg yn rhan ganolog o'r broses adolygu ac yn mynychu pob panel perthnasol.

Dyfarniad Rhyng-gysylltiedig

Newidiodd y cynllun i fodel agored bob amser ac mae proses mynegi diddordeb wedi'i llunio bellach i helpu rhoi arweiniad i ymgeiswyr cyn cyflwyno cais i'w adolygu'n llawn gan banel.

Dyfarniad Ymgysylltu Cyhoeddus

Roedd cyllideb y dyfarniad wedi codi i uchafswm o 7.5 mil fesul prosiect.



Cam gyrfa:
Cydweithio

Enw: Jennifer Wymant,
Ysgol Fferylliaeth

Dyfarniad cyllid: Dyfarniad
Trawsddisgyblaethol

Teitl y prosiect: eSPIONage cancer
y fron: datblygu llwyfannau SPION
amlswyddogaethol targedig ar
gyfer theranosteg.

Rwy' mor ddiolchgar am y dyfarniad ISSF, sydd heb os wedi fy ngwneud i'n ymchwilydd mwy amlddisgyblaeth a mwy cystadleuol. Mae wedi rhoi cyfle gwych i mi fentro i faes newydd, adeiladu rhwydwaith cydweithredol lleol a chynhyrchu data rhagarweiniol cadarn a fydd yn sylfaen i geisiadau grant yn y dyfodol."



Ymchwilywyr ar Ddechrau eu Gyrfa: Cymorth a hyfforddiant

Mae ISSF3 wedi neilltuo cyllid i ymchwilywyr ar ddechrau eu gyrfa, gyda'r nod o gefnogi:

1. Gwelliant mewn sgiliau gwyddonol
2. Profiad gwaith y tu allan i'r Sefydliad, gan gynnwys gyda chwmnïau fferyllol, diwydiant neu'r llywodraeth
3. Cyfleoedd rhwydweithio
4. Casglu data rhagarweiniol i gefnogi grantiau cyntaf a
5. Hyfforddiant ymgysylltu cyhoeddus a'i gyflawni.

Rhoddir adborth i ymchwilywyr ar ddechrau eu gyrfa sy'n gwneud cais am gynlluniau, ynghyd â mentora'r grantiau i helpu hybu deilliannau ISSF3 llwyddiannus. Bydd hyfforddiant ymgysylltu yn adeiladu hyder, dealltwriaeth ac arbenigedd, gan gynhyrchu gwyddonwyr sydd, o ddechrau eu gyrfaedd, yn gallu gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus.


Hefyd, caiff ymchwilywyr ar ddechrau eu gyrfa gyfle i arsylwi ein cyfarfodydd panel i ddysgu am adolygu, sgorio a gwneud

penderfyniadau am grantiau. Yn ôl ymchwilywyr ar ddechrau eu gyrfa sydd wedi gwneud hyn, bu'n brofiad cadarnhaol iawn. Caiff ymchwilywyr ar ddechrau eu gyrfa gymorth i wella'u llwyddiant wrth ennill dyfarniadau, cael profiad o baneli cyllido a throsi canlyniadau yn gyllid allanol.

Mesurau llwyddiant:

- Cydweithrediadau ymchwil newydd sy'n hunangynhaliol
- Datblygu sgiliau ymchwil ymchwilywyr ar ddechrau eu gyrfa, gan gynnwys profiad y tu allan i'r byd academiaidd (e.e. diwydiant, yn rhyngwladol)
- Cael cymrodoriaeth annibynnol neu gymrodoriaeth gwella sgiliau gyntaf, neu grant annibynnol cyntaf
- Cynyddu'r rhan y mae ymchwilywyr ar ddechrau eu gyrfa yn ei chwarae mewn gweithgareddau ymgysylltu, a'u darparu

Adborth Ymchwilywyr ar Ddechrau eu Gyrfa ar ISSF3



Enw: Martin Scurr,
Ysgol Meddygaeth
Panel a Arsylwyd:
Panel Cydweithio ISSF3

Roedd cyfarfod y panel ISSF yn ddefnyddiol iawn; o ganlyniad, gadawais gan deimlo'n fwy hyderus o lawer am y ceisiadau grant sydd gen' i ar y gweill. Yn benodol, roedd hi'n ddiddorol clywed beth oedd yn gadarnhaol ac yn negyddol am bob cais ym marn y panelwyr; nid yn unig rhinwedd gwyddonol y cynnig, ond asesiad o'r bobl a fyddai ynghlwm a'r tebygolrwydd o allu cyflawni'r prosiect.

Cynlluniau cyllido

(dyfarniadau a wneir drwy geisiadau cystadleuol)

Cam gyrfa	Cynllun cyllido	Cyfnod hiraf pob dyfarniad	Swm mwyaf (£) pob dyfarniad
Hyfforddiant	Dyfarniad Paratoi Clinigol Yn cyd-fynd â'n Rhaglen Hyfforddiant Academaidd Clinigol CW4 Ymddiriedolaeth Wellcome, bydd Paratowyr Clinigol ISSF3 yn cynorthwyo hyfforddeion meddygol/deintyddol heb brofiad ymchwil i ennill profiad o labordai a pharatoi ceisiadau am gyfleoedd cyllido GW4-CAT a chyfleoedd cyllido PhD eraill.	Hyd at 6 mis	30 mil
Atgyfnerthu	Dyfarniad Atgyfnerthu Cynnig cymorth i ôl-raddedigion rhagorol baratoi ceisiadau ar gyfer dyfarniadau dechrau gyrfa (e.e. Cymrodoriaeth Ôl-ddoethuriaeth Henry Wellcome neu Gymrodoriaeth Datblygu Sgiliau'r MRC). Bydd disgwyl i ymgeiswyr gyhoeddi papurau o'u traethawd ymchwil a chyflawni prosiect ymchwil bach, gyda mentor newydd, gan felly ymestyn eu set sgiliau ymchwil.	12 mis	50 mil
	Dyfarniad Hyfforddiant Symudedd a Sgiliau Cynorthwyo ein hymchwilyr ar ddechrau eu gyrfa trwy eu galluogi i ennill sgiliau ymchwil newydd, ymweliadau â labordai allanol i gasglu data ar raddfa fechan, secondiadau i ddiwydiant, y llywodraeth neu i randdeiliaid allweddol eraill, neu hyfforddiant ar ymgysylltu.	Hyd amrywiol	10 mil
Annibyniaeth	Dyfarniad Ailgysylltu â Gwyddoniaeth: Ei fwriad yw cynorthwyo ymchwilyr ôl-ddoethurol rhagorol sydd wedi cymryd seibiant gyrfa i ddychwelyd i'r Brifysgol. Bydd y dyfarniadau'n talu cyflog i ddechrau, gan gynnwys cyflog rhan-amser, ond bydd ymchwilyr hefyd yn gallu gwneud cais am gyllid ymchwil ar gyfer prosiect neu i deithio i labordai eraill, wrth i'w sgiliau a'u hyder ddatblygu.	Hyblyg am hyd at 18 mis	55 mil
	Dyfarniad Cymrodoriaeth Ei fwriad yw cadw a recriwtio ymchwilyr rhagorol sydd ar ddechrau eu gyrfa a'u cynorthwyo i bontio i annibyniaeth. Bwriedir i hyd at 18 mis o gyllid roi amser i gasglu data prawf o gysyniad, adeiladu rhwydweithiau gwyddonol newydd a gweithio ar gyflwyno cais annibynnol am gyllid.	18 mis	75 mil
	Dyfarniad Hadau i'w Hadu Bwriedir i'r cynllun hwn helpu ymchwilyr ar ddechrau eu gyrfa i gasglu data peilot i gefnogi dyfarniad Cyngor Ymchwil ar gyfer Ymchwilydd Newydd, er enghraifft. Bydd mentoriaid yn helpu ymgeiswyr i ymraffael â chynhyrchu syniadau, ysgrifennu grantiau a sicrhau canlyniad ariannu llwyddiannus.	Hyd amrywiol	20 mil

Cam gyrfa	Cynllun cyllido	Cyfnod hiraf pob dyfarniad	Swm mwyaf (£) pob dyfarniad
Cydweithio	Dyfarniad Poblogaeth Nod y cynllun hwn, sy'n dychwelyd ar ffurf ychydig yn fwy sylweddol nag yn ISSF2, yw ysgogi ymchwil ar raddfa'r boblogaeth, sy'n cyd-fynd â nodau strategol Themâu Ymchwil ein Coleg.	Hyd amrywiol	50 mil
	Dyfarniad Trawsddisgyblaethol Cyllid sydd â'r nod o hybu arloesedd mewn ymchwil yn cyd-fynd ag ymchwil ryngddisgyblaethol, gan gydweithio ag ymchwilwyr o Golegau eraill yn y Brifysgol ynghylch cwestiynau ymchwil biofeddygol sy'n bwysig yn strategol.	Hyd amrywiol	50 mil
	Dyfarniad Dechrau Trosiadol Ac yntau'n elwa o'n profiad gyda dyfarniadau Hyder mewn Cysyniad a Chysylltiad Agos â Darganfod yr MRC, bydd y cynllun newydd hwn yn rhoi prawf ar ddarparu cyllid cychwynnol ar gyfer prosiectau cydweithredol â diwydiant, llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch prosiectau gwyddorau bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys effeithiau amgylcheddol ar iechyd, sef blaenoriaeth strategol i Ymddiriedolaeth Wellcome.	Hyd amrywiol	50 mil
	Dyfarniad Rhyng-gysylltiedig I hyrwyddo ymagwedd 'gwyddoniaeth tîm' yn y Coleg a helpu i ddarparu tystiolaeth o gydweithio, bydd y dyfarniadau hyn, a ddatblygwyd trwy weithdai, yn ariannu 2 i 3 phrosiect rhyngddisgyblaethol wedi'u cysylltu'n thematig, sy'n mynd i'r afael â heriau mawr allweddol iechyd a'r amgylchedd. Caiff cydweithrediadau traws-coleg, yn y DU neu yn rhyngwladol eu hannog, yn enwedig lle y deuir â dulliau / ymagweddau gwyddonol newydd i Gaerdydd.	Hyd amrywiol	145 mil

Prosesau a gweithdrefnau ymgeisio yn ISSF3



Mae cynlluniau Cymrodoriaeth ac Ailgyssylltu â Gwyddoniaeth yn dilyn proses ar wahân, gaiff ei hysbysebu'n allanol trwy gyfleoedd Prifysgol Caerdydd am swyddi.

Gwelliannau i geisiadau a phaneli

Diwygiwyd ein proses ymgeisio ac adolygu gan banel er mwyn rheoli cyfansoddiad a sgiliau paneli grantiau ac fel y gallwn gyflawni ein nodau, sef ymagwedd gynhwysol at weinyddu a dyfarnu cyllid ISSF.

Ceisiadau grant

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gofynnir i ymgeiswyr ddweud sut byddant yn mynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn gysylltiedig â chynnwys staff, rheoli'r prosiect a data sy'n gysylltiedig â'u dyfarniad.

Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa

Gofynnir i ymgeiswyr ddweud sut bydd eu dyfarniad o fudd i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa, fel y rhai sy'n cael eu defnyddio yn gysylltiedig â'r dyfarniad (e.e. trwy ddysgu am ddulliau ymchwil newydd, gwella'u sgiliau).

Crynodebau Hygyrch

Bellach, rydym yn gofyn i bob ymgeisydd ddarparu crynodeb hygyrch. Yna, caiff crynodebau hygyrch prosiectau sy'n ennill dyfarniadau eu cyhoeddi ar wefan Prifysgol Caerdydd.

Datblygiad Paneli

Hybu dealltwriaeth a datblygiad gyrfaol

Cydnabyddir bod Paneli ISSF3 yn gyfle i ddatblygu staff ac rydym yn galluogi ymchwilwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa i arsylwi paneli ISSF3 fel y gallant ddysgu am adolygu grantiau.

Hybu Cynhwysiant Ledled y Coleg

Ar hyn o bryd, rydym yn hysbysebu'r cyfle i ymuno â phanel ledled y Coleg, gan benodi cydweithwyr iau i uwch mewn paneli asesu mwy.

Meithrin newid mewn diwylliant trwy weithredu

Mae'n ofynnol i bob aelod panel gwblhau dau gwrs hyfforddi gorfodol, a gymeradwywyd gan Adnoddau Dynol, cyn adolygu'r ceisiadau: Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Hyfforddiant Tueddiadau Diarwybod.


Cadeiryddion penodedig newydd

Mae gan bob panel gadeirydd penodedig sydd ag arbenigedd yn y cam gyrfa perthnasol, yn ogystal ag arbenigedd priodol mewn amrywiaeth ac arbenigedd rhyngddisgyblaethol ymhlith aelodau'r panel.

Adroddiad diwedd prosiect

Fel rhan o raglen ISSF Ymddiriedolaeth Wellcome Prifysgol Caerdydd, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i Ymddiriedolaeth Wellcome am ganlyniadau sy'n deillio o'n cyllid. I hwyluso hyn, rydym wedi datblygu system ar-lein newydd er mwyn i'r rhai sydd wedi derbyn cyllid ISSF roi gwybod am eu canlyniadau, o fewn mis i gwblhau'r dyfarniad a'r tu hwnt i hynny, fel bo'r gofyn.

Mae'r system yn cynnwys categorïau dal data sy'n cyd-fynd â system Researchfish®*. Mae'r dull hwn yn caniatáu i ni gasglu gwybodaeth ar ffurf sy'n cyd-fynd â dulliau adrodd allanol, ond mae hefyd yn rhoi profiad i ymchwilwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa o'r ffordd y mae cyllidwyr amlwg yn dal allbynnau grantiau yn nodweddiadol.



Rhennir yr adroddiad yn dair rhan, y mae ymchwilwyr yn cwblhau pob un ohonynt:

Adran 1: Trosolwg o'r prosiect –

Gofynnir i ymchwilwyr roi manylion sylfaenol prosiect eu dyfarniad a chrynodeb o'r canlyniadau gan ddefnyddio'r categorïau isod:

- Canfyddiadau arbrofol allweddol
- Effaith y prosiect
- Datblygiad gyrfaol

Adran 2: Allbynnau'r Prosiect –

Gofynnir i ymchwilwyr ddarparu enghreifftiau pwynt bwled o allbynnau penodol yr ymchwil gan ddefnyddio'r categorïau isod:

- Cyhoeddiadau
- Cronfeydd data, offer, dulliau a meddalwedd ymchwil
- Eiddo deallusol, trwyddedu, cynhyrchion, ymyriadau meddygol a threialon clinigol
- Cydweithrediadau, partneriaethau a dylanwad adnoddau
- Gweithgareddau ymgysylltu a dylanwad polisi, ymarfer neu gyhoeddus

Adran 3: Allbynnau Datblygu Gyrfa –

Gofynnir i ymchwilwyr ddarparu rhestr pwyntiau bwled o enghreifftiau yn cyd-fynd â chynaliadwyedd ymchwil, pontio i annibyniaeth a datblygiad gyrfaol sydd wedi'u hwyluso gan y prosiect, gan ddefnyddio'r categorïau isod:

- Hyfforddiant, sgiliau a datblygiad
- Y cyrchfannau nesaf
- Dyfarniadau a chydabyddiaeth
- Cyllid pellach a chymau yn y dyfodol
- Cefnogaeth ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth

I gael rhagor o wybodaeth, llwythwch ein canllaw diwedd prosiect i lawr o'n tudalen we ar yr ISSF.

*Mae Researchfish® yn system ar-lein sy'n galluogi ymchwilwyr i adrodd canlyniadau eu hymchwil i sefydliadau cyllido. Fe'i defnyddir gan holl Cyngorau Ymchwil y DU i ddal canlyniadau ac effaith ymchwil yn y tymor hwy.

Cyfathrebu

Rydym wedi gwella'n cyfathrebiadau yn fewnol ac ar-lein trwy ein cylchlythyron ISSF. Mae'r cylchlythyron yn darparu gwybodaeth graidd am ein cynlluniau ISSF, ysgolheigion sydd wedi'u hariannu a chanlyniadau prosiectau, yn ganllaw ac yn ysbrydoliaeth i ddarpar ymgeiswyr am ein cynlluniau.

Cylchlythyr ISSF 2il Argraffiad: Mae'n darparu manylion cynllun ISSF gan gynnwys y fframwaith camau gyrfa, cynlluniau unigol a datblygiadau'r ISSF.

Cylchlythyr 'Newid Gyrfaoedd a Diwylliant': Mae'n amlgu adborth a phrofiadau deiliaid prosiect sydd wedi cael dyfarniad, panelwyr ac arsylwyr sy'n ymchwilyr ar ddechrau eu gyrfa. Darperir ystadegau prosiectau sydd wedi cael dyfarniadau, panelwyr/cyfarfodydd panel a dadansoddiad o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hefyd.

Taflen canllaw cyflym: Canllaw cyfeirio cyflym i'n cynlluniau ISSF unigol, wedi'u cyflwyno yn ôl cam gyrfa.

Cylchlythyr Ymgysylltu Cyhoeddus ISSF3:

Mae'n cyflwyno cynllun Ymgysylltu Cyhoeddus ISSF3 gydag enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd yn flaenorol a manylion rhaglen hyfforddiant ymgysylltu cyhoeddus. Bydd diweddariad i'r cylchlythyr yn parhau i arddangos prosiectau prawf o gysniad newydd ac arloesol, ar raddfa fechan, a sut mae ymgysylltu cyhoeddus wedi'i integreiddio i'r Coleg ac ymwneud y brifysgol yn ehangach.

Mae gwybodaeth am ISSF a'n cylchlythyron i'w gweld ar-lein hefyd ar ein tudalennau a adnewyddwyd yn ddiweddar, sydd ar gael trwy wefan Prifysgol Caerdydd; mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwybodaeth am y cynllun: Gwybodaeth gyffredinol am gynllun ISSF
- Cyfleoedd cyfredol: Manylion ein cynlluniau a galwadau sydd ar agor ar hyn o bryd
- Prosiectau a ariennir ar hyn o bryd: Manylion prosiectau sydd wedi cael ein dyfarniadau a'u crynodebau hygrych
- Dyfyniadau adborth gan ddeiliaid ein dyfarniadau cyfredol i ysbrydoli ymgeiswyr y dyfodol

Rydym wedi creu dogfen Cwestiynau Cyffredin yn gysylltiedig â phob cynllun, sy'n cael ei diweddu'n rheolaidd i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei rhoi i unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais i ISSF. Mae ar gael ar-lein ar ein tudalennau gwe hefyd.

Mae'r cyfrif Twitter (@CUBLSResearch) a chyfathrebiadau ehangach Prifysgol Caerdydd (Yammer, BLAS, eitemau newyddion) yn hyrwyddo rhaglen ISSF3 yn weithgar ymhlith ein cymuned ymchwilyr ar ddechrau eu gyrfa.



@CUBLSResearch



Ymgysylltu Cyhoeddus



Dr Jeremy Segrott

Arweinydd Academaidd
ISSF y Coleg ar
Ymgysylltu Cyhoeddus

'Mae cynllun ISSF Ymddiriedolaeth Wellcome yn ymrwmo i ymgysylltu cyhoeddus, a hynny ar safon uchel, sy'n dwyn buddion gwirioneddol i aelodau'r cyhoedd ac i ansawdd ac effaith ein hymchwil.'

Bydd ein hymgysylltiad cyhoeddus ISSF3 yn cael ei ddarparu fel gweithgarwch gyrfa wedi'i ymgorffori, gan gefnogi sgiliau ymgysylltu gwell ar draws yr oes academaidd, gan adlewyrchu'r dull a ddefnyddir ar gyfer ymchwil.

Penodwyd ein Harweinydd Academaidd newydd Ymgysylltu Cyhoeddus, Jeremy Segrott, i ISSF3 i ddatblygu Rhwydwaith a Strategaeth Ymgysylltu Cyhoeddus gydlynol ar gyfer y Coleg gan weithio gyda Swyddog Ymgysylltu'r Coleg, Carl Smith.

Mae Swyddog Ymgysylltu'r Coleg yn cynnig hyfforddiant pwrpasol sy'n anelu at hybu sgiliau a gwybodaeth yn ymwneud â datblygu, cynnal a gwerthuso ymgysylltu cyhoeddus o ansawdd uchel. Ein huchelgais yw uno ymchwilyr o amgylch nodau ymgysylltu synergyddol, annog dull yn seiliedig ar gyfathrebu a gwella ansawdd a gwerth y profiad ymgysylltu ar gyfer y sawl sy'n ei brofi, yn ogystal â'r ymchwilydd.

Mesurau llwyddiant:

- Cyflwyno Strategaeth Ymgysylltu newydd y Coleg
- Cynnydd sylweddol yn nifer yr ymchwilyr ymgysylltu medrus yn y coleg
- Gweithgareddau ymgysylltu prawf o gysyniad newydd ac arloesol
- Mwy o llwyddiant wrth sicrhau cyllid allanol ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus

Rhaglen Ddatblygu Ymgysylltu Cyhoeddus

Mae tri chwrs ar gael fel rhan o'r rhaglen ac yn ogystal, caiff sesiynau galw i mewn ar Ymgysylltu Cyhoeddus eu cynnal o fewn Ysgolion y Coleg:



Enw: Sharifah Agha
Yr Ysgol Meddygaeth

Dyfarniad cyllid: Dyfarniad Ymgysylltu Cyhoeddus ISSF3
Teitl y prosiect: Datblygu animeiddiad byr ar beth mae'n ei olygu i gael ADHD

Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol, oherwydd nid yn unig y gwnaeth gadarnhau rhai o'r dulliau a ddefnyddiom mewn digwyddiadau blaenorol, fe wnaeth helpu hefyd i wella fy ngwybodaeth i reoli digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus. Roedd datblygu'r cynrychioliadau gweledol ar gyfer y prosiect, fel model rhesymeg, map rhanddeiliaid a siart Gantt, wedi helpu gyda'r broses gynllunio ac, weithiau, wrth ateb amrywiol adrannau fy nghais.

Dulliau arloesol o gefnogi Ymgysylltu Cyhoeddus yn ISSF3

Mae ISSF3 wedi hwyluso creu Rhwydwaith newydd Ymgysylltu Cyhoeddus yn y Coleg; mae'r grŵp hwn yn gweithio ar ddata a fydd yn llywio ac yn hysbysu ein Cynllun Strategol Ymgysylltu Cyhoeddus.

Blaenoriaethau cychwynnol Rhwydwaith Ymgysylltu Cyhoeddus y Coleg oedd sefydlu nodau ac amcanion allweddol, amlinellu cylch gorchwyl, cytuno ar gworwm a chytuno ar amllder cyfarfodydd. Hefyd, mae'r gweithgor wedi archwilio diben a buddion rhwydwaith ymgysylltu cyhoeddus.

Bydd y rhwydwaith yn galluogi'r Coleg i archwilio dulliau ymgysylltu cyhoeddus ar draws y Coleg er mwyn amlygu arfer orau, rhwystrau, heriau, canlyniadau ac effaith. Bydd y dull hwn

yn sicrhau ymagwedd gysylltiedig, unedig ar draws y Coleg fel y gall gweithgareddau gyfrannu tuag at ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel Cenhadaeth Ddinesig y Brifysgol.

Bydd fframwaith Ymgysylltu Cyhoeddus, er enghraifft model rhesymeg, yn cael ei ddatblygu i fonitro canlyniadau ac effaith y rhwydwaith.


Bwriedir cynnal digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus yn 2020 i arddangos ein prosiectau a ariennir gan yr ISSF. Bydd yr Arddangosfa yn amlygu'r prosiectau, y cymunedau cyhoeddus a'r buddion i gymdeithas sydd wedi'u hysgogi trwy'r dyfarniad prawf o gysyniad.

Prosiectau Prawf o Gysyniad Ymgysylltu Cyhoeddus

Mae'r Rhaglen Ddatblygu Ymgysylltu Cyhoeddus yn galluogi ymchwilwyr i gyflwyno a thrafod eu syniadau ymgysylltu, a datblygu dull sy'n hwyluso trafodaeth ddwyffordd â'r cyhoedd. Rydym yn cynorthwyo unigolion i ddatblygu cynnig ar gyfer Dyfarniad Prawf o Gysyniad Ymgysylltu Cyhoeddus. Dyma rai enghreifftiau o brosiectau sydd wedi'u hariannu'n llwyddiannus isod:

Archfygiau:

Aeth gwyddonwyr Prifysgol Caerdydd â'u hymchwili i ganol prifddinas Cymru, gan droi siop yn labordy rhyngweithiol yng nghanolfan siopa brysur Dewi Sant. Fe wnaeth 6,500 a mwy o bobl ymhél â'r labordy rhyngweithiol ar ficrobiolog, gwrthfotigau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd dros y cyfnod dros dro.



Y 'Blwch Ymennydd':

Cynlluniwyd y 'Blwch Ymennydd' i ysgolion uwchradd sy'n cynnig Seicoleg a Bioleg Safon Uwch fel y gallant gynnal eu gwersi eu hunain ar niwrowyddoniaeth a'r ymennydd! Mae'r 'Blwch Ymennydd' wedi'i gysylltu ag adnoddau ar-lein manwl er mwyn cyflwyno'r gweithgareddau yn y blwch.




Môr-ladron Gwyddoniaeth:

Mae cyhyrau'n ymateb i ymarfer corff drwy fynd yn fwy ac yn gryfach, ond beth am esgryn? Defnyddiodd gwyddonwyr o Goleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd fodel gweithgarwch yn arddull yr ystafell ddiano gyfoes i ddatblygu gêm feddyliol a chorfforol sy'n seiliedig ar antur er mwyn helpu cyfranogwyr i gael hyd i'r ateb.



Cydraddoldeb, Amrywiaeth a



Dr Katherine Shelton

Arweinydd Academaidd
ISSF y Coleg ar
gyfer Cydraddoldeb,
Amrywiaeth a
Chynhwysiant

'Mae ein hymdrechion i hyrwyddo arfer gorau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer cynllun ISSF Ymddiriedolaeth Wellcome yng Nghaerdydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi a galluogi ymagwedd deg, seiliedig ar deilyngdod, at brosesau ymgeisio, dosbarthu cyllid grantiau a chyfraddau llwyddiant.'

Caiff cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eu hymgorffori yn narpariaeth ISSF3 gan sicrhau ein bod yn cynnwys ac yn cynrychioli'r holl ymchwilwyr yn y Coleg. Penodwyd ein Harweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Katherine Shelton, i gynorthwyo â dadansoddi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a monitro paneli, ceisiadau a dyfarniadau.

Mae datblygiadau allweddol cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cynnwys:

- Casglu ffurflen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i chymeradwyo gan yr adran AD er mwyn gallu monitro ceisiadau a llwyddiant yn ôl nodweddion gwarchodedig
- Rheoli cydbwysedd rhywedd paneli, lle bo'n bosibl, ym mhob agwedd ar adolygu ceisiadau a chyflwyno aelodau
- Gofyniad i bob panelwr ISSF gwblhau dau gwrh hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd wedi'u cymeradwyo gan yr adran AD.

Fel rhan o ISSF3, rydym hefyd yn ceisio hybu ymgysylltiad yn y cynllun gan unigolion sydd wedi cymryd seibiant gyrfa, ac sydd angen amser - yn ôl yn yr amgylchedd ymchwil - i ddatblygu eu hyder, gwybodaeth a sgiliau ymchwil i fod yn gystadleuol ar gyfer swyddi ôl-ddoethurol, cymrodoriaeth neu swyddi darlithio.

Ysgogydd Newid Diwylliant

Dyheadau Newid Diwylliant:

- Prosiectau a cheisiadau o ansawdd uwch, mwy o gyllid i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a chyfleoedd newydd i'r rhai sy'n dychwelyd i wyddoniaeth a gwaith trosiadol
- Mwy o banelwyr ac adolygwyr hyfforddedig ar draws y coleg a chynyddu gwybodaeth ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa am y broses adolygu grantiau.
- Gwreiddio hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a hyfforddiant ar dueddiadau diarwybod mewn gweithdrefnau asesu grantiau ar draws y Brifysgol.
- Cynnwys ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yn fwy wrth ddarparu gweithgareddau ymgysylltu cyhoeddus a datblygu sylfaen sgiliau Ymgysylltu Cyhoeddus trwy hyfforddiant a chyllid prawf o gysyniad.

Mesurau llwyddiant:

- Mwy o amrywiaeth mewn paneli ISSF3 a llwyddiant ariannu, ynghyd â gwell dealltwriaeth ddiwylliannol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y Coleg.
- Caiff llunio diwylliant cynhwysol ei symud fel ei fod yn flaenllaw mewn penderfyniadau.
- Sicrhau bod pawb yn arddel cyfrifoldeb am gynhyrchu cymunedau ymchwil amrywiol.
- Codi nifer y ceisiadau o ansawdd uchel sy'n dod i law gan fenywod ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa ar draws pob ysgol yng Ngholeg y Gwyddorau Biolegol a Gwyddorau Bywyd.
- Rhaeadru gwersi a ddysgwyd ar draws Coleg y Gwyddorau Biolegol a Gwyddorau Bywyd i greu gwaddol o arfer gorau.




Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Rydym yn adolygu'n barhaus ein dull, prosesau a gweithdrefnau er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn cyflwyno cynllun ISSF Ymddiriedolaeth Wellcome. Rydym yn croesawu'ch adborth a gall unrhyw awgrymiadau gael eu hanfon at Weinyddwr yr ISSF ar ISSFadmin@caerdydd.ac.uk.


Rydym wedi gwneud newidiadau i'r Cynllun Trawsddisgyblaethol i fynd i'r afael â'n dymuniad i weld ac ariannu mwy o geisiadau sy'n cynnwys y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, a'r Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg. Ymhlith y newidiadau hyn y mae gorfod cynnwys partner cydweithredol Traws-oleg, rhoi gwybod am gynlluniau ISSF drwy weithdai a mynd ati i gynnwys mwy o adolygwyr sydd ag arbenigedd yn ymchwil y dyniaethau, y gwyddorau cymdeithasol, y gwyddorau ffisegol a pheirianneg.

I sicrhau gwelededd, dylanwadu ar arfer cyfredol ac annog newid diwylliannol, mae tîm ISSF Caerdydd wedi sicrhau aelodaeth o amrywiol gyfarfodydd strategol mewnol ac allanol. Mae'r rhain yn cynnwys pwyllgorau ymchwil ac ymgysylltu CITER, grŵp gweithredol y Genhadaeth Ddinesig a chyfarfodydd y Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang (GCRF). Wrth i fwy o'n prosiectau ISSF ddod i ben, ein nod yw cynyddu'n cymorth i'r ymchwilwyr hynny i'w helpu gyda'u camau nesaf a'u prosiectau yn y dyfodol.

Wellcome Trust ISSF Management Board



BLS College Research Committee



Mae Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA) yn ddatganiad y gall prifysgolion a sefydliadau eraill (cyhoeddwr, arianwr) ei lofnodi i ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o fetrigau a dangosyddion meintiol ymchwil. Mae llofnodwyr nodedig yn cynnwys arianwr fel pob un o saith Cyngor Ymchwil y DU ac Ymddiriedolaeth Wellcome, ynghyd â hanner holl Brifysgolion Grŵp Russell. Rydym yn falch o gyhoeddi bod Prifysgol Caerdydd wedi llofnodi DORA ar 13 Tachwedd 2019.

Mae llofnodwyr yn ymrwymo i seilio asesiad perfformiad ymchwil yn bennaf ar ansawdd cynnwys yr ymchwil a asesir drwy adolygiad gan gymheiriaid, gan beidio â rhoi mwy o ystyriaeth nag y mae ei angen i fetrigau cyhoeddi sy'n seiliedig ar y cyfnodolyn lle cafodd yr ymchwil ei gyhoeddi.

Yn 2018, cytunodd Bwrdd Gweithredol y Brifysgol a'r Senedd gynnull gweithgor i gynorthwyo ag alinio Prifysgol Caerdydd ag egwyddorion DORA, cyn ei lofnodi. Mae'r Athro Claire Gorarra, sydd newydd ei phenodi'n Ddeon Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil y Brifysgol, yn cadeirio Gweithgor DORA ac yn arwain ar roi cynllun gweithredu DORA ar waith ar draws y sefydliad, gan weithredu ar ran y Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter, yr Athro Kim Graham.

Mae gan Ymddiriedolaeth Wellcome ymrwymiad cadarn i DORA ac maent yn annog sefydliadau â chyllid ISSF i fwrw ymlaen â newid cadarnhaol yn y maes hwn. Mae Ymddiriedolaeth Wellcome wedi cytuno y gallwn ddefnyddio cyllid ISSF i gynorthwyo â phenodi 'Swyddog Metrigau Ymchwil Cyfrifol' newydd y Brifysgol, Karen Desborough, a fydd yn sicrhau bod gweithredu DORA yn cael cefnogaeth dargedig ac amserol yng nghanau carlam cynnar datblygu polisi ac arferion newydd, ynghyd â dulliau hyfforddi newydd, yn y Brifysgol.

Llywodraethu ISSF3

Bydd Bwrdd ISSF yn parhau i gael ei gadeirio gan yr Athro Gary Baxter (Dirprwy Is-Ganghellor Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd). Bydd yn cynnwys arweinwyr penodedig ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymgysylltu cyhoeddus, ynghyd â chynrychiolwyr panel a benodir, sy'n gyfrifol am ddryniadau cyllid ym mhob cam gyrfa. Cynhelir cyfarfodydd bwrdd fel y gellir monitro gwariant a llwyddiant mentrau newydd.

Darperir manylion cyfarfodydd y bwrdd i bwyllgor ymchwil y Coleg i sicrhau cyfraniad gan Gyfarwyddwyr Ymchwil, Cyfarwyddwyr Sefydliadau Ymchwil y Brifysgol ac Arweinwyr Themâu Ymchwil y Coleg.

Tîm ISSF3

**Yr Athro Kim Graham**

Prif Ymchwilydd a Dirprwy
Is-Ganghellor ISSF

Kim Graham yw Prif Ymchwilydd ISSF
a'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil,
Arloesedd a Menter ym Mhrifysgol
Caerdydd.

**Yr Athro Gary Baxter**

Cadeirydd Bwrdd Rheoli
Ymddiriedolaeth Wellcome

Gary yw Cadeirydd Bwrdd Rheoli
Ymddiriedolaeth Wellcome, yn ogystal â
Dirprwy Is-Ganghellor Coleg y Gwyddorau
Biofeddygol a Bywyd.

**Dr Katherine Shelton**

Arweinydd Academaidd ISSF
y Coleg ar gyfer Cydraddoldeb,
Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Katherine yn gyfrifol am bob
agwedd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
yn ISSF3. Mae hi'n adrodd i Bwyllgor
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol.

**Dr Jeremy Segrott**

Arweinydd Academaidd ISSF
y Coleg ar Ymgysylltu Cyhoeddus

Bydd Jeremy yn gweithio'n agos gyda'r
Swyddog Ymgysylltu i gyflawni uchelgais
y Coleg o uno ymchwilwyr o amgylch
nodau ymgysylltu synergyddol.

**Hasnae Khamlichi**

Swyddog Gweinyddol ISSF

Hasnae yw Gweinyddwr a Swyddog
Cymorth Ymchwil ISSF yn y Coleg. Mae'n
rheoli'r gwaith o gynnal y cynllun ISSF o
ddydd i ddydd.

**Carl Smith**

Swyddog Ymgysylltu ISSF y Coleg

Gall Carl gynnig cyngor ac arweiniad ar
bob agwedd ar ymgysylltu cyhoeddus, yr
hyfforddiant a'r broses o wneud cais am
gyllid Prawf o Gysyniad.

**Dr Amanda Roberts-Jones**

Pennaeth Dros Dro Datblygu Ymchwil,
Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesedd

Mae Amanda yn rheoli'r tîm proffesiynol
(o fewn y Gwasanaethau Ymchwil ac
Arloesedd a'r Coleg) sy'n gyfrifol am
gyflwyno Dyfarniadau ISSF.

**Dr Andrew Staphnill**

Swyddog Datblygu Ymchwil

Mae Andrew yn gyfrifol am reoli defnydd
priodol o'r grant ISSF yn unol ag arian
cyfatebol y Coleg, ac am ddarparu
cymorth o ran nodi cyfleoedd am gyllid
grant.



ISSFAdmin@caerdydd.ac.uk



@CUBLSResearch